University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Seremoni Raddio – Gwybodaeth Bwysig

Rydym yn falch iawn o ddathlu'r garreg filltir arwyddocaol hon gyda chi. Mae graddio yn gyfle arbennig i gydnabod eich cyflawniadau, myfyrio ar eich taith, a rhannu'r achlysur cofiadwy hwn gyda theulu, ffrindiau, cyd-raddedigion, a staff y Brifysgol.

Er mwyn helpu i sicrhau bod eich diwrnod yn bleserus, yn gofiadwy, ac yn rhedeg yn esmwyth, cymerwch ychydig o eiliadau i ddarllen y wybodaeth bwysig isod. Mae'n cynnwys popeth sydd angen i chi ei wybod am eich seremoni, cyrraedd ICC Cymru, ffotograffiaeth, seddi a’r dathliadau.

Amserlen y Seremoni

Amser	Gweithgaredd	Pwy
O 2:30pm	Cyrraedd ICC Cymru (Casnewydd). *Nodwch: dim ond yn ôl disgresiwn y Prif Farsial y gellir derbyn y rhai sy'n cyrraedd ar ôl 4:50pm. Cyrhaeddwch ar amser.*	Graddedigion a Gwesteion
O 2:30pm	Casglu gwisg academaidd (Prif Neuadd)	Graddedigion yn unig
O 2:30pm	Cofrestru a chasglu tocynnau (Prif Neuadd)	Graddedigion yn unig
Cyn 4:00pm neu ar ôl y seremoni	Ffotograffiaeth swyddogol (Prif Neuadd)	Graddedigion a Gwesteion
4.15pm	Mynd i'r awditoriwm	Pawb
O 4:15pm	Graddedigion yn cymryd eu seddi	Graddedigion yn unig
O 4:30pm	Gwesteion yn cymryd eu seddi	Gwesteion
5.00pm	Seremoni yn dechrau'n brydlon	Pawb

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Beth i'w ddisgwyl yn ICC Cymru

Fel myfyriwr graddedig, byddwch chi yn:

- Casglu eich gwisg academaidd (cap, gŵn a chwfl) a thocynnau'r seremoni
- Cael y cyfle i dynnu lluniau swyddogol
- Mynychu eich seremoni raddio yn yr awditoriwm

Gallwch hefyd fwynhau ardal Gŵyl Raddio, lle gallwch ddathlu gyda'ch chyd-raddedigion, gwesteion a staff y Brifysgol. Mae'r ardal hon yn cynnwys:

- Stondinau lluniaeth
- Stondinau gwybodaeth Cyn-fyfyrwyr a'r Brifysgol
- Llif byw ar sgrin fawr o'r seremoni ar gyfer gwesteion sy'n well ganddynt beidio â mynd i mewn i'r awditoriwm neu nad oes ganddynt docyn

Ymddygiad Graddio

Mae graddio yn uchafbwynt y flwyddyn academaidd, ac rydym yn anelu at sicrhau bod pob myfyriwr graddedig yn cael profiad cofiadwy a pharchus.

Gofynnwn yn garedig i chi a'ch gwesteion wneud y canlynol:

- Bydd graddedigion yn cael eu tywys yn ôl i'w seddi ar ôl croesi'r llwyfan (gall hyn fod yn wahanol i'ch sedd wreiddiol – gadewch eich eiddo gyda'ch gwesteion)
- Rhaid i raddedigion aros yn eu seddi trwy gydol y seremoni
- Rhaid i westeion aros yn eu seddi er mwyn lleihau aflonyddwch ar eraill
- Arhoswch yn barchus ac yn dawel yn ystod y seremoni, a chymeradwywch bob myfyriwr graddedig wrth iddynt groesi'r llwyfan

Gwybodaeth Diogelwch

Bydd mesurau diogelwch ychwanegol ar waith i sicrhau diogelwch a mwynhad pawb sy'n mynychu.

Nodwch:

- Gall bagiau mawr fod yn destun chwiliad (argymhellir peidio â dod â bagiau mwy na 'clutch' bach)
- Ni chaniateir cesys dillad yn y lleoliad a gellir eu gwrthod
- Rhaid i raddedigion a gwesteion gael eu tocynnau yn barod er mwyn cael mynediad i'r awditoriwm

Caniatewch amser ychwanegol wrth gyrraedd ar gyfer gwiriadau diogelwch.

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Teithio a Pharcio

Am wybodaeth a chyfarwyddiadau teithio, ewch i: https://www.iccwales.com/cy/getting-here

Parcio

- Mae dros 2,000 o leoedd ar gael ar y safle
- Mae gostyngiad parcio drwy'r dydd ar gael pan archebir ymlaen llaw

Archebu parcio ymlaen llaw:

https://www.celtic-collection-events.com

Ffotograffiaeth

Mae ffotograffiaeth graddio broffesiynol ar gael fel gwasanaeth galw heibio yn y Brif Neuadd cyn eich seremoni.

- Mae ffotograffiaeth ar gael cyn neu ar ôl y seremoni
- Bydd ffotograffiaeth yn cau **tuag awr cyn i'r seremoni ddechrau** i raddedigion gael digon o amser i fynd i'w seddi

Gwybodaeth Eistedd

- Gwiriwch eich tocyn am eich **mynediad, lefel a rhif sedd neilltuol**
- Byddwch yn cael eich tywys i'ch sedd gan staff
- Cadwch eich tocyn gyda chi bob amser
- Rhaid i raddedigion fynd i mewn ar wahân a chyflwyno eu tocyn i Farsial
- **Peidiwch â symud i seddi wag, gan fod pob sedd wedi'i neilltuo**

Nodyn atgoffa pwysig:
Dim ond yn ôl disgresiwn y Prif Farsial y gellir derbyn graddedigion a gwesteion ar ôl **4:50pm.**

Cwestiynau Cyffredin

Beth ddylwn i'w wisgo?

Rhaid i bob myfyriwr graddedig fod wedi'i wisgo'n addas (**dim jîns, siorts, neu fflip-fflops**) a gwisgo gwisg academaidd lawn (cap, gŵn, a chwfl). Ni chaniateir graddedigion nad ydynt yn gwisgo'r wisg academaidd briodol (cap, gŵn, a chwfl) raddio.

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Beth sy'n digwydd yn ystod y seremoni?

Gellir dod o hyd i'r manylion llawn yma:

https://www.southwales.ac.uk/cy/graddio/ar-eich-diwrnod-graddio/

A oes tocynnau ychwanegol i westeion ar gael?

Efallai y bydd nifer cyfyngedig o docynnau ychwanegol i westeion ar gael i'w prynu ar y diwrnod. Efallai y bydd tocynnau ychwanegol ar gael ar y diwrnod am £20 yr un, yn amodol ar argaeledd. Nodwch na ellir gwarantu argaeledd.

Beth am ar ôl y seremoni?

Ar ôl eich seremoni, dychwelwch eich cap, eich gŵn a'ch cwfl yn y man casglu ger yr ystafell gotiau.

Dylid dychwelyd gwisg academaidd erbyn **7:30pm.**

Os nad ydych wedi trefnu llogi estynedig a methu dychwelyd eich gŵn erbyn hyn, byddwch yn gyfrifol am ei dychwelyd yn uniongyrchol i Ede & Ravenscroft.

Trefn y Digwyddiad

Darperir taflen a dolen i'ch rhaglen electronig pan fyddwch yn casglu eich tocynnau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni ar:

Cysylltwch â Ni | Prifysgol De Cymru

Tîm Cofnodion ac Asesu Myfyrwyr
Cofrestrfa Academaidd
Prifysgol De Cymru
Pontypridd
CF37 1DL
https://www.southwales.ac.uk/cy/graddio/

University of South Wales
Prifysgol De Cymru